# COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 1 HYDREF 2025

Yn bresennol: Y Cadeirydd: Aron Roberts

Y Cynghorwyr: Sarah Hughes, Hefin Jones, Richard Davies
Enid Roberts, Glain Williams, Aranli Thomas.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)
Tom Williams (Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd NRS)

Ymddiheuriadau: Llywarch Davies, Elfed Roberts (Cynghorydd Sir), Iwan Jones, Idwal Williams A. Huw Jones.

## 2478 - CYFLWYNIAD MR TOM WILLIAMS (NRS TRAWSFYNYDD)

Diolchodd Tom Williams o NRS Trawsfynydd am y croeso ac egluro bod tair blynedd ers ei ymweliad diwethaf. Mae'r gwaith prosesu ymbelydrol wedi dod i ben ar ôl ugain mlynedd, ac mae'r ffocws bellach ar ddymchwel adeiladau yr adweithyddion. Bydd y prosiect newydd "gostwng uchder" yn dechrau ar y 6ed o Hydref, dan arweiniad Costain HD, gyda rhwng 100 a 150 o weithwyr ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd, gan geisio cynnwys pobl leol.
Mae trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn cael ei phrosesu, ac mae monitro dŵr yn parhau. Mae'r gwaith yn Nhrawsfynydd yn cael ei ystyried yn bwysig ar lefel genedlaethol, gan osod safon ar gyfer gorsafoedd eraill. Bydd adweithyddion yr atomfa'n cael eu gostwng dros y blynyddoedd nesaf, gyda mwy o eglurder erbyn 2026. Bydd rhywfaint o ymbelydredd isel yn aros ar y safle ond dan oruchwyliaeth ddiogel. Disgwylir tua chwe blynedd arall o waith datgomisiynu i gwblhau'r broses.
Eglurodd Mr Tom Williams bod cytundeb ar gyfer Llyn Trawsfynydd eisoes yn bodoli rhwng Traws-Newid â'r NDA, gyda'r cytundeb yn canolbwyntio ar iechyd a lles y gymuned. Nodwyd y bydd y trefniant hwn yn dod i ben yn 2027. Dywedodd Mr Tom Williams ei fod wedi trafod y mater gyda Mr Gerallt Rhun, ac fod clybiau lleol bellach yn cysylltu gyda'r NDA ynghylch defnyddio'r llyn ar gyfer gweithgareddau megis paddle boarding. Fodd bynnag, mae'r NDA yn dymuno i geisiadau o'r fath fynd drwy Traws-Newid yn hytrach na thrwy glybiau unigol. Pwysleisiodd Mr Williams ei fod yn teimlo'n gryf bod potensial mawr gan Lyn Trawsfynydd, ac nad yw'n dymuno gweld unrhyw beth yn atal datblygiadau neu gyfleoedd newydd o'i gwmpas.
Mae'r New Engineer wedi enwi nifer o leoliadau posibl ar gyfer adeiladu Reactorau Modiwlaidd Bach (SMR), ac mae Trawsfynydd ymhlith y safleoedd hynny. Sefydlwyd cwmni Egino i archwilio cyfleoedd yn y maes hwn, gan gynnwys datblygu SMRau a chynhyrchu isotopau meddygol. Mae Egino am drafod gyda'r NRS ynghylch datblygu Canolfan Ymwelwyr Trawsfynydd, gyda'r bwriad o greu parc gwyddonol ar y safle. Mae cwmni Egino yn parhau i geisio cael y parc gwyddonol. Os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen, bydd yn cael ei gomisiynu gan Gyngor Gwynedd. Eglurodd Y cynghorydd Hefin Jones mai Maentwrog oedd yn gyfrifol am greu Llyn Trawsfynydd, a bod arian o'r llyn yn mynd i'r Trysorlys. Nodwyd mai diffyg cynnal a chadw gan Faentwrog a arweiniodd at ddirywiad y bont. Bu Cynghorydd Sir Elfed Roberts a'r diweddar Keith O'Brien hefyd yn pwyso ar Faentwrog am hyn. Cyflwynwyd deiseb ar yn ystod y cyfarfod wedi'i llofnodi gan nifer o drigolion y pentref i'r NDA i geisio sicrhau camau pellach.

## 2479 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 3ydd o Fedi fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

2480 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddodd y Clerc bod e-bost wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn nodi mai trwydded sylfaenol yn unig oedd gan Garej Lôn, a bod yr e-bost yma wedi ei yrru ymlaen i'r awdurdodau perthnasol er mwyn gwirio'r tystysgrifau. Derbynwyd e-bost gan Liz Saville Roberts yn awgrymu cydweithio â'r Cynghorydd Sir lleol i ofyn am asesiad pentref cyfan o ran trafnidiaeth, gan gynnwys y problemau pasio lleol gan fysiau T2, a chysylltu â Mr Dafydd Wyn Williams, Pennaeth yr Adran Amgylchedd. Awgrymwyd hefyd i Lywodraethwyr yr ysgol gysylltu â'r Adran Addysg gyda chefnogaeth y Cynghorydd Sir. Nodwyd y bydd cefnogaeth ar gael i bwyso am ymweliad safle ac asesiad ar fyrder os bydd angen. Penderfynwyd e-bostio Mr Dafydd Wyn Williams i ofyn am asesiad pentref gyfan ac e-bostio pennaeth ysgol Bro Hedd Wyn er mwyn gofyn iddi gyfeirio'r mater i'r adran addysg.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddodd Y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi derbyn cadarnhad ar y pryd y byddai replica llai o Sgwar y Ddraig yn cael ei osod yn Bryn y Gofeb, ond nid yw hynny wedi digwydd.Adroddwyd fod Gardd Sylvia Crowe i fod i gael ei symud fesul carreg, ond nad yw'r gwaith hwnnw wedi cael ei wireddu hyd yma. Eglurodd y swyddog ariannol fod cymorth gyda paratoi cais i'r Loteri wedi cael ei addo ar gyfer Sgwar y Ddraig gan Michelle Humphreys (NRS), ond nad yw hwnnw chwaith wedi mynd yn ei flaen. Dywedodd Mr Tom Williams y bydd yn adrodd y materion hyn i'r NDA, ac yn edrych i weld a oes cwmni neu gorff arbenigol ar gael i adolygu cytundebau cymunedol cysylltiedig â'r prosiectau hyn.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod disgyblion Ysgol Bro Hedd Wyn wedi bod yn gwneud posteri er mwyn hybu gyrru'n ddiogel yn ystod eu wythnos Penderfynwyd aros tan y cyfarfod nesaf i gael unrhyw ddiweddariad pellach gan y Cynghorydd Sir Elfed Roberts.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r tir feddianwr a'i fod wedi dweud ei fod yn agored i drafodaeth am werthu rhan arall o'r tir i'r Cyngor. Cytunwyd i iddo am gyfarfod, ac i ofyn i R G Jones Dolgellau i brisio'r darn ychwanegol yma o dir. Penderfynwyd i yrru diweddariad i Mr Rhys Llwyd Davies y Pensaer.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Cytunwyd i'r gwaith gael ei gwblhau gan T D Plant Hire. Adroddwyd y byddai Mr Rhys Williams yn cysylltu gyda'r contractwr er mwyn penodi dyddiad i gwblhau'r gwaith, a bydd yn rhaid cau'r ardal yn gyfan gwbl er mwyn cwblhau'r gwaith. Penderfynwyd i roi'r wybodaeth yma ar Facebook yn dilyn cael dyddiad cwblhau'r gwaith.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod anfoneb Mr David Owen wedi ei dalu am y gwaith a gwblhawyd.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Derbyniwyd e-bost yn nodi bod ymateb 'pre-app' yr Awdurdod Cynllunio wedi dod i law ynghylch y cynigion i addasu gosodiad Cofeb Hedd Wyn. Cadarnhawyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cynigion mewn egwyddor, ond bod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch goleuo'r gofeb. Argymhellwyd trafod y cynigion gyda swyddogion Priffyrdd Cyngor Gwynedd cyn cyflwyno cais ffurfiol, ac y bydd angen darparu gwybodaeth fanwl am gynnwys y bwrdd gwybodaeth. Nodwyd ei bod yn annhebyg y bydd angen caniatâd hysbysebu (yn ddibynnol ar gynnwys), ond gellir cadarnhau hyn cyn cyflwyno'r cais terfynol.
Cytunwyd i anfon e-bost at Mr Davies er mwyn cysylltu â'r adran Briffyrdd, ac y bydd angen trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf pwy fydd yn dylunio graffeg y bwrdd gwybodaeth a'r manylion pellach o'r cynigion. Nodwyd hefyd y gallai fod angen cyngor arbenigol ar oleuo, gan gynnwys dewis offer addas i leihau llygredd golau, ac y gall cwmnïau goleuo ddarparu dyluniadau priodol.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddodd y cynghorydd Hefin Jones wrth Mr Tom Williams bod pryder mawr ymhlith trigolion y pentref am ddyfodol Pont Llyn Trawsfynydd, gyda cheisiadau parhaus i wybod beth fydd yn digwydd iddi. Yn ystod y Sioe Amaethyddol, mynegodd llawer o bobl leol eu barn fod angen ailgodi'r bont. Eglurodd Mr Tom Williams fod y bont wedi bod ar gau ers tair blynedd oherwydd pryderon diogelwch. Y bwriad presennol yw dymchwel y bont, ond nid oes arian ar gael i'w hailadeiladu gan fod hynny'n rhy ddrud oherwydd y defnydd o ddur a choncrid. Er bod arian wedi'i glustnodi ar gyfer dymchwel, nid oes neb wedi gwneud penderfyniad terfynol eto, gan nad oes digon o

wybodaeth yn yr archifdy i gadarnhau cyfrifoldeb yr NRS. Awgrymwyd y gallai pwysau allanol, e.e. gan gorff llywodraethol, helpu i symud y broses ymlaen. Dywedodd Mr Tom Williams fod modd i'r gymuned fynegi barn yn ffurfiol ac y gallai hynny gael effaith. O ran amserlen, disgwylir i'r bont gael ei dymchwel ddiwedd y flwyddyn nesaf.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y clerc bod e-bost wedi ei dderbyn gan Mr Michael Evans, Cydlynydd Rheoli Tir, yn cadarnhau bod yr ymholiad wedi'i basio ymlaen iddo i'w ystyried. Nododd y bydd yn edrych i mewn i'r materion a godwyd yn yr e-bost gwreiddiol ac yn dychwelyd gydag ymateb cyn gynted ag sy'n bosibl. Cytunwyd i aros am ymateb pellach gan Mr Evans cyn gweithredu ymhellach.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi gofyn am sgwrs gyda GWE Cambrian dros e-bost ond heb dderbyn ymateb. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu unwaith yn rhagor.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Adroddwyd bod nifer o e-byst wedi eu derbyn gan drigolion y pentref yn nodi sut oedd y diffyg gwasanaeth bws wedi eu heffeithio. Penderfynwyd i e-bostio pawb i ddiolch am ymateb. Yn ogystal roedd y Cadeirydd Aron Roberts, y cynghorydd Hefin Jones a'r cynghorydd Sarah Lock am gyfarfod gyda Mr Gerwyn Jones Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd a Mr Dan Lloyd o Lloyds Coaches i drafod sefyllfa bysus yn y pentref ar y 5ed o Hydref.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Swyddog Ariannol nad yw dal heb gael y mapiau'n ôl gan Mr Williams a bod y gwair wedi gôr dyfu'n wyllt. Cytunwyd i ail gysylltu gyda Mr Gwyn Evans.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc nad oedd ymateb pellach gan Mr Adrian Williams. Cytunwyd i ofyn am ddiweddariad.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Cytunwyd gofyn am ddiweddariad os oedd y ffens wedi ei thrwsio'n llawn.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn – Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Sir am ddiweddariad yng nghyfarfod mis Tachwedd.

2440(3) – Cae Chwarae Ty Llwyd – Adroddodd y Cadeirydd Aron Roberts bod y gwaith wedi ei gwblhau'n llawn ar y cae chwarae. Adroddwyd bod y swyddog ariannol angen hawlio'r grant a bod angen rhoi logo'r sawl sydd wedi ariannu'r Cae chwarae arno. Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch i Mr a Mrs A Hughes a Mr a Mrs Davies am eu haelioni yn darparu dwr a thrydan i'r gweithwyr. Cytunwyd i ddarparu llythyr i rieni'n gofyn caniatâd i dynnu lluniau'r plant yn mwynhau'r offer newydd.

2440(5) - Arian Llys Ednowain –Cytunwyd i drafod yr awgrymiadau ar gyfer gwario'r arian yn y cyfarfod nesaf.

2441(2) - Bron Gwyndŷ – Adroddodd y Clerc nad oedd ymateb i'r e-byst a yrrwyd. Penderfynwyd i ofyn am ddiweddariad pellach.

2456(1) – Diod Feddwol yn y Neuadd - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi cael mynediad i ddogfen oedd yn nodi bod yn bosib i'r pwyllgor newid y rheolau o ran diod feddwol fel y mae nhw'n dymuno. Bydd yn ddyletswydd ar bwyllgor y neuadd i wneud hyn. Pwysleisiwyd ei fod yn bwysig gwneud hyn cyn cael cofrestru'r neuadd.

2456(3) – Cae chwarae Cefn Gwyn - Derbyniwyd e-bost gan Mr Bryn Hughes yn dilyn yr ymholiad am gyflwr y sleid yng nghae chwarae Cefn Gwyn. Nododd fod adroddiad gan y gwneuthurwyr wedi cadarnhau mai mewnoliadau bwriadol oedd y difrod, wedi'u hachosi'n debygol gan daro'r sleid â gwrthrych. Yn ôl yr adroddiad, mae'r sleid yn ddiogel ar hyn o bryd, cyn belled nad oes rhagor o ddifrod yn digwydd ac nad yw'r mewnoliadau'n datblygu'n dyllau â ymylon miniog nac yn achosi craciau. Gan fod costau newid y cyfarpar yn uchel a chyfyngiadau ariannol presennol mae Cyngor Gwynedd

wedi penderfynu peidio ag ailosod y sleid ar hyn o bryd, ond i fonitro a'i harolygu'n rheolaidd ac adolygu'r sefyllfa ar ôl cyfnod priodol.

2464(1) - Gor-yrru yn Stesion - Adroddodd y Clerc nad oedd diweddariad pellach ond cytunwyd cadw'r mater ar y cofnodion er mwyn aros am ymateb.

2464(5) - Sedd Wâg – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod am roi yr hysbys swyddogol angenrhediol am y sedd wag.

2470(1) – Parc Bryn Glas – Cytunwyd aros i'r cynghorydd Sir Elfed Roberts adrodd yn ôl os oes unrhyw arian ar gael i wneud maes parcio bychan ym Mryn Glas.

2470(2) – Trydan i'r Diffribiliwr yn Stesion - Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Scottish Power i ofyn pe bai modd cael trydan o'r polyn sydd ar ochr allanol y giât yn y Stesion, roedd yr e-bost hwn wedi ei gyfeirio at adran arall a ni fu ymateb hyd yma. Penderfynwyd i ofyn am ddiweddariad.

## 2481 - GOHEBIAETH

(1) Adroddwyd bod y Cynghorydd Hefin Jones wedi cysylltu gyda Mr Steffan Williams a dywedodd bod 2 wedi ymgeisio ar gyfer y swyddi gweithwyr ieuenctid. Ar hyn o bryd mae nhw'n wrthi cael gwiriad DBS gyda'r gobaith o gychwyn y clwb ddiwedd y mis.

(2) Cofnod: Hysbysiad Cyn Ymgeisio Is-orsaf National Grid, Trawsfynydd. Derbyniwyd hysbysiad o dan Erthyglau 2C a 2D Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 gan National Grid Electricity Transmission Limited, yn nodi eu bwriad i gyflwyno cais cynllunio arfaethedig ar gyfer gwaith yn is-orsaf bresennol Trawsfynydd. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gwaith ar geblau tanddaearol, gosod adweithydd siynt newydd, a chodi Ystafelloedd Gweithrediadau Symudol ar y safle. Mae'r dogfennau perthnasol ar gael i'w gweld ar www.nationalgrid.com/pentir-trawsfynydd neu yn Llyfrgell Porthmadog. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i'r datblygwr drwy e-bost neu drwy'r cyfeiriad erbyn 15 Hydref 2025. Nodwyd fod y broses ymgynghori yn cael ei harwain gan Michael Tuke, National Grid.

(3) Bu i'r Cadeirydd ddatgan diddordeb - Cais Cynllunio Cais Rhif: NP5/78/122A er mwyn codi estyniad cefn un llawr to fflat i gefn yr eiddo Feidiog, Stryd yr Orsaf, Trawsfynydd, LL41 4TE.. Cytunwyd derbyn a chefnogi y cais.

(4) Derbyniwyd e-bost gan Mr Paul Williams yn ein hysbysu fod papur misol Llafar Bro yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed ym mis Hydref. Fel rhan o'r dathliadau, trefnir arddangosfa arbennig yn Llyfrgell y Blaenau o'r 11eg o Hydref hyd at y Nadolig, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Hanes Bro Ffestiniog a Chymdeithas Archeolegol Bro Ffestiniog. Gwahoddir cynghorwyr ac etholwyr i'r agoriad swyddogol am 10 o'r gloch, fore Sadwrn, Hydref 11eg, gyda'r posibilrwydd y bydd criw 'Prynhawn Da', S4C, yn bresennol i ffilmio.

(5) Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan yr Aelod Seneddol Sian Gwenllian am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i sefydlu ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

## 2482 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol a cytunwyd ar y taliadau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

(2) Adroddodd y Swyddog Ariannol na chafwyd unrhyw adroddiad yn ôl gan y Swyddfa Archwilio.

2483 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Cytunwyd archebul bin brown i Gardd Salem a'r gost o £40 y flwyddyn.

(2) Adroddwyd bod Gwasanaethau Tir a Choed wedi cwblhau'r gwaith o roi chwyn laddwyr yn Pencefn.

(3) Derbyniwyd e-bost gan Mr Bryn Hughes yn nodi bod y ffens ddiffygiol yng nghae chwarae Maes Gwyndy wedi'i hadnabod fel darn o waith sydd angen ei gwblhau eleni. Cadarnhawyd fod y gwaith wedi'i raglennu i'w gyflawni cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

(4) Penderfynwyd ofyn am ddiweddariad os oedd Canllaw pont Tai'r Cynhaeaf wedi ei thrwsio.

(5) Gofynodd y cynghorydd Glain Williams os ydym yn gorfod derbyn bod y bont am gael ei dymchwel, neu ydym ni am weithredu. Cytunwyd i drafod opsiynau yn y cyfarfod nesaf.

(6) Adroddodd y Swyddog Ariannol bod Adra'n fodlon i'r cyngor brynnu'r tir ym Mro Prysor. Cytunwyd i yrru e-bost yn cadarnhau bod gan y Cyngor ddiddordeb yn ei brynnu yn ddibynol ar y pris. Cytunwyd i'r Swyddog Ariannol gysylltu ymhellach ag Adra.

(7) Adroddodd y cynghorydd Enid Roberts ei bod wedi bod i Fryn y Gofeb a bod y goriad yn awr gan y Cynghorydd Hefin Jones. Adroddwyd bod y cynghorydd Hefin Jones wedi bod i llnau Bryn y Gofeb yn dilyn y Sioe Amaethyddol.

2484 - MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF.

(1) Torch ar gyfer Sul y Cofio.

(2) Bydd angen i riwyn gymryd yr awenau a darllen y Kohima ym Mryn y Gofeb ar Sul y Cofio.

2485 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod cais am grant wedi cael ei roi mewn i adnewyddu'r system wresogi yn y neuadd ond yn anffodus ni fu'n llwyddiannus. Dywedwyd y bydd pwyllgor y neuadd yn adrodd yn ôl i Mr Rhys Llwyd y pensaer.

(1) Bu'r cadeirydd Aron Roberts mewn cyfarfod "Think in sight strategy". Ni chafodd y cyngor wahoddiad i'r cyfarfod yma a penderfynwyd yrru e-bost i Elin Parry Jones yn cwestiynu pam a bod angen i'r cyngor wybod am hyn. Y neges o'r cyfarfod oedd bod angen rhoi pwysau ar Mr Bill Hamilton er mwyn cael adweithyddion SSG yn Nhrawsfynydd a chael yr NRS i ail godi'r bont droed.

CYFARFOD NESAF AR Y 5ed o DACHWEDD